Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Bangor Institute for Health & Medical Research

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
CHEME
Centre for Health Economics and Medicines Evaluation

# Pa ymyriadau cost-effeithiol sydd yno i gefnogi pobl mewn gwaith a chynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gweithlu?

Hydref 2023

Rhiannon Tudor Edwards, Llinos Haf Spencer, Bethany Fern Anthony, Jacob Davies, Kalpa Pisavadia, Abraham Makanjuola, Huw Lloyd-Williams, Elizabeth Doe, Libby Humphris, Olivia Gallen, Alison Cooper, Ruth Lewis, Adrian Edwards

## Cefndir

Yng Nghymru, mae 1.48 miliwn o bobl mewn cyflogaeth ar hyn o bryd a 58,300 o bobl sy'n ddi-waith. **Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ddiweithdra o 3.8% yng Nghymru.**

## Nod

Mae'r **Adolygiad Cyflym** hwn yn adeiladu ar adroddiad Llesiant mewn Gwaith 2019 (Edwards et al., 2019) ac mae'n ceisio **deall effaith economaidd llesiant yn y gweithle** yn well.

## Canfyddiadau Allweddol

Mae rhywfaint o dystiolaeth o ansawdd uchel yn awgrymu y gall yr ymyriadau canlynol helpu i **leddfu absenoldeb a darparu arbedion cost busnes**, gan gynnwys:

- Cefnogaeth i weithwyr sydd mewn perygl o anhwylderau iechyd meddwl cyffredin
- Ymyriadau bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol
- Rhaglenni brechu rhag ffliw

Mae **tystiolaeth gymysg** yn awgrymu bod:

- Ymyriadau ar gyfer gweithwyr ag **arthritis neu gyflyrau cyhyrysgerbydol eraill yn gost-effeithiol o'u cymharu â 'gofal arferol'.**
- Gellir lleihau'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon gan weithwyr gydag ymyriadau fel **sgrinio yn y gweithle, hunan-arweiniad, cymorth lleoliad unigol, a chymorth gweithdy.**

Mae tystiolaeth o **ansawdd cymedrol** bod **desgiau sefyll** yn ffordd gost-effeithiol o wella cynhyrchiant gwaith.

## Ymchwil Pellach

**Lles a diweithdra mewn poblogaethau hŷn**

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai diffyg gwaith fod yn niweidiol i les pobl hŷn.

**Menywod mewn gwaith**

Mae cynhyrchiant menywod o oedran menopos neu â chyflyrau fel endometriosis yn aneglur. Mae angen mwy o dystiolaeth yma.

**Niwroamrywiaeth**

Anawsterau dysgu difrifol neu benodol ac awtistiaeth yw'r anableddau sydd â'r cyfraddau cyflogaeth isaf yng Nghymru. Nid yw 70% o'r boblogaeth ag awtistiaeth yn y DU mewn cyflogaeth.

## Ystyriaethau Economaidd

O'i gymharu â gwledydd eraill y G7, mae'r DU yn perfformio'n gymharol wael wrth ddychwelyd i gyfraddau cyflogaeth cyn y pandemig. Mae hyn yn cael ei achosi, yn rhannol, gan restrau aros llawfeddygaeth ddewisol hir yn y GIG.

**Mae hyn yn amlygu'r berthynas gylchol rhwng iechyd a'r economi.**

## Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

Mae angen polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru i wella cyfleoedd cyflogaeth cyfartal, waeth beth fo oedran, rhyw neu statws anabledd.

**Gellir gweld yr adroddiad llawn yma:**

https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2024.01.17.23300197v1